# Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Practis Deintyddol Church Road, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

Dyddiad yr arolygiad: 5 Chwefror 2018

Dyddiad cyhoeddi: 8 Mai 2018

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:


**Y Rheolwr Cyfathrebu**

**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
**Llywodraeth Cymru**

**Parc Busnes Rhyd-y-car**

**Merthyr Tudful**

**CF48 1UZ**


Neu drwy


**Ffôn: 0300 062 8163**

**E-bost: hiw@gov.wales**

**Ffacs: 0300 062 8387**
**Gwefan: www.agic.org.uk**



ISBN Digidol 978-1-78903-921-4



© Hawlfraint y Goron 2018

# Cynnwys


1. Yr hyn a wnaethom ................................................................ 5

2. Crynodeb o'n harolygiad ................................................................ 6

3. Yr hyn a ganfuom ................................................................ 8

Ansawdd profiad y claf ................................................................ 9

Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol ................................................................ 15

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth ................................................................ 23

4. Beth nesaf? ................................................................ 26

5. Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol ................................................................ 27

Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad ........... 28

Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith ................................................................ 29

Atodiad C – Cynllun gwella ................................ **Error! Bookmark not defined.**

**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r corff annibynnol sy'n arolygu ac yn rheoleiddio gofal iechyd yng Nghymru**

# Ein diben

**Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal da.**

# Ein gwerthoedd

- **Canolbwyntio ar y claf: rydym yn rhoi cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a phrofiad y cyhoedd wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud**
- **Uniondeb: mae ein ffordd o weithredu yn agored ac yn onest**
- **Annibynnol: rydym yn gweithredu a gwneud penderfyniadau gwrthrychol yn seiliedig ar yr hyn a welwn**
- **Cydweithredol: rydym yn datblygu partneriaethau effeithiol yn fewnol ac yn allanol**
- **Proffesiynol: mae ein dull gweithredu yn effeithiol, effeithlon a chyfrannol.**

# Ein blaenoriaethau

**Ein nod trwy ein gwaith yw:**

| | |
|---|---|
| **Darparu sicrwydd:** | **Cynnig safbwynt annibynnol ar ansawdd y gofal.** |
| **Hybu gwelliant:** | **Annog gwelliant trwy adrodd a rhannu arfer da.** |
| **Dylanwadu ar bolisi a safonau:** | **Defnyddio'r hyn yr ydym yn ei ddarganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer.** |

# 1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Bractis Deintyddol Church Road yn 33 Church Road, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 2DY, o fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ar 5 Chwefror 2018.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys arolygydd AGIC ac adolygydd cymheiriaid deintyddol.

Gwnaeth AGIC archwilio sut roedd y gwasanaeth yn cydymffurfio â'r Safonau Iechyd a Gofal (2015), Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011, a deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol eraill.

Gellir gweld manylion pellach ynglŷn â'n dull o gynnal arolygiadau deintyddol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

# 2. Crynodeb o'n harolygiad

At ei gilydd, canfuom dystiolaeth fod Practis Deintyddol Church Road yn darparu gofal diogel ac effeithiol i'w gleifion.

Roedd y practis yn canolbwyntio ar y claf ac roedd ganddo bolisïau a gweithdrefnau priodol ar waith i sicrhau diogelwch staff a chleifion.

Roedd y practis yn lân a thaclus a gwelsom ddogfennau yn dangos bod yr offer deintyddol yn cael ei gynnal a'i gadw a'i wasanaethu'n gyson.

Mae angen i'r practis sicrhau bod cofnodion cleifion yn cael eu cynnal yn unol â safonau proffesiynol ar gyfer cadw cofnodion

Gwelsom fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Roedd y staff yn rhyngweithio'n broffesiynol gyda chleifion ac yn gyfeillgar ac yn gwrtais â nhw
- Roedd offer deintyddol wedi'i gynnal a'i gadw'n dda a'i wasanaethu'n rheolaidd
- Roedd cyfleusterau clinigol yn llawn cyfarpar ac roeddent yn weledol lân ac yn daclus

Rydym yn argymell y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Staff i sicrhau fod y drysau i'r ystafelloedd triniaeth ar gau tra bod claf yn derbyn triniaeth.
- Mae'r holl staff clinigol ac anghlinigol yn cael hyfforddiant cyfredol sy'n berthnasol i'w swyddogaethau
- Y practis i gynnal asesiadau risg mewn perthynas ag iechyd a diogelwch yn y gweithle.
- Rhaid cadw cofnodion yn unol â safonau proffesiynol ar gyfer cadw cofnodion, sef Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 a Chanllawiau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol

# 3. Yr hyn a ganfuom

## Cefndir y gwasanaeth

Mae Practis Deintyddol Church Road yn darparu gwasanaethau i gleifion yn ardal Caerdydd . Mae'r practis yn rhan o'r gwasanaethau deintyddol a ddarperir yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro.

Mae gan y practis dîm staff sy'n cynnwys chwe deintydd, tri hylenydd, chwe nyrs ddeintyddol a thri aelod o staff derbynfa.

Mae'r practis yn darparu amrediad o wasanaethau deintyddol y GIG a gwasanaethau deintyddol cyffredinol preifat.

## Ansawdd profiad y claf

*Gwnaethom siarad â chleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle'r oedd hynny'n briodol) i sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull o arolygu.*

Canfuom fod y practis yn ymrwymedig i ddarparu profiad cadarnhaol i'w cleifion.

Nododd y cleifion hynny a gwblhaodd holiadur AGIC eu bod yn fodlon ar y gofal a'r driniaeth yr oeddent wedi eu derbyn.

Mae angen i'r practis ddatblygu system ar gyfer cofnodi adborth cleifion anffurfiol/ar lafar.

Cyn yr arolygiad, gwahoddwyd y practis i ddosbarthu holiaduron AGIC i gleifion, er mwyn cael eu barn ar y gwasanaethau deintyddol a ddarperir. Cwblhawyd cyfanswm o 18 holiadur.

Ar y cyfan, roedd yr adborth gan gleifion yn yr holiaduron yn gadarnhaol. Rhoddodd un claf y sylw canlynol yn yr holiaduron

> *Hapus gyda phob agwedd ar y gwasanaeth a ddarperir; Gwasanaeth o safon uchel; Rwy'n teithio ar draws y ddinas yn hytrach na newid i bractis agosach oherwydd fy mod mor hapus â'r gofal*

Gofynnwyd i'r cleifion yn yr holiaduron sut y gallai'r practis deintyddol wella'r gwasanaeth a ddarperir ganddo. Roedd sylwadau cleifion yn cynnwys y canlynol:

> Mae'r staff bob amser yn ein trin yn dda, yn barod i helpu ac yn hwyliog. *Yn gwneud i chi deimlo'n gyfforddus.* Os oes problem, gallaf fel arfer gael apwyntiad yn gyflym
>
> *Byddai apwyntiadau gyda'r nos wedi bod yn ddefnyddiol pan oeddwn i'n gweithio*

Hapus iawn gyda'r gwasanaeth. Staff derbynfa gyfeillgar ac amgylchedd cynnes. Rwy'n gobeithio nad yw fy neintydd yn mynd i ymddeol yn fuan. Diolch yn fawr

## Cadw’n iach

Yn yr ardal aros gwelsom ddetholiad o daflenni gwybodaeth hybu iechyd ar gael i gleifion eu darllen a/neu fynd â nhw adref. Roedd y rhain yn cynnwys taflenni gwybodaeth ynghylch triniaethau a chyngor ataliol.

Dywedodd y cleifion i gyd a lenwodd holiadur fod y tîm deintyddol wedi trafod gyda hwy sut y gallent gadw eu ceg a’u dannedd mewn cyflwr iach.

Yr hyn y mae angen ei wella

## Gofal ag urddas

Dywedodd pob claf a gwblhaodd holiadur ei fod wedi cael ei drin â pharch wrth ymweld â'r practis.

Dywedodd staff wrthym, petai angen sgwrs breifat gyda chleifion, y gellid cynnal hyn yn y swyddfa fach y tu ôl i'r dderbynfa. Gellid gwneud galwadau ffôn o'r swyddfa honno hefyd, gan roi preifatrwydd i’r claf.

Er bod gan bob ystafell driniaeth ddrysau gwnaethom nodi yn ystod yr arolygiad nad oeddent bob tro ar gau tra bod claf yn derbyn triniaeth. Byddem yn argymell bod drysau'r ystafelloedd triniaeth ar gau pan fo claf yn derbyn triniaeth i roi preifatrwydd ac urddas iddo.

Yr hyn y mae angen ei wella

Staff clinigol i sicrhau bod drysau'r ystafelloedd triniaeth ar gau tra bod cleifion yn derbyn triniaeth.

### Gwybodaeth i gleifion

Dywedodd pob un o'r cleifion a wnaeth gwblhau holiadur wrthym ei fod yn teimlo ei fod yn cyfrannu (cymaint ag yr oedd eisiau) at unrhyw benderfyniadau

a oedd yn cael eu gwneud am ei driniaeth. Dywedodd pob claf hefyd, pan fydd angen triniaeth arno, bod y tîm deintyddol yn ei helpu i ddeall yr holl opsiynau sydd ar gael.

Dywedodd y mwyafrif o gleifion a wnaeth gwblhau holiadur fod cost unrhyw driniaeth yn cael eu gwneud yn glir iddynt cyn iddynt dderbyn unrhyw driniaeth a gwnaethant ddweud wrthym eu bod yn deall sut oedd cost eu triniaeth yn cael ei chyfrifo.

Gwelsom restrau prisiau sy'n dangos costau triniaethau deintyddol y GIG a chostau triniaethau deintyddol preifat yn yr ardal aros.

Dangoswyd manylion deintyddion y practis a'u horiau agor priodol ar brif fynedfa'r practis.

Yr hyn y mae angen ei wella

### Cyfathrebu'n effeithiol

Dywedodd pob un o'r cleifion a wnaeth gwblhau holiadur wrthym, a oedd yn cynnwys siaradwyr Cymraeg a rhai di-Gymraeg, ei fod bob amser yn gallu siarad â staff yn ei ddewis iaith.

Roedd gan y practis wefan a oedd yn cynnwys manylion triniaeth ddeintyddol preifat y mae'n ei darparu ynghyd â rhestr brisiau a chyngor iechyd deintyddol. Er mwyn cydymffurfio â chanllawiau hysbysebu moesegol y Cyngor Deintyddol Cyffredinol[1] rydym yn argymell ei fod yn cael ei ddiweddaru i gynnwys cyfeiriad at ddarparu triniaeth ddeintyddol y GIG, rhestr brisiau triniaeth ddeintyddol y GIG ac i gynnwys polisi cwynion y practis ar gyfer triniaeth ddeintyddol y GIG a phreifat.

[1] https://www.gdc-uk.org/api/files/Guidance%20on%20advertising%20(Sept%202013).pdf

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae angen i'r practis adolygu a diweddaru ei wefan i gynnwys gwybodaeth am ddarparu triniaeth ddeintyddol y GIG a'r prisiau perthnasol a pholisi cwynion y practis.

## Gofal amserol

Dywedodd pob un o'r 18 o gleifion a wnaeth gwblhau holiadur y byddai'n gwybod sut i gael mynediad at y gwasanaethau deintyddol y tu allan i oriau os oedd ganddo broblem ddeintyddol frys. Roedd manylion am sut y gallai cleifion gael mynediad at ofal deintyddol brys pan oedd y practis ar gau yn cael eu harddangos tu mewn a'r tu allan i'r practis. Roedd yr wybodaeth hefyd yn cael ei darparu ar neges peiriant ateb y practis.

Yn ystod ei oriau agor, roedd y practis yn gwneud ymdrech i sicrhau bod cleifion yn cael eu gweld yn brydlon. Dywedodd staff wrthym, pe bai deintydd yn rhedeg yn hwyr, y byddent yn siarad â'r cleifion i roi gwybod iddynt am unrhyw oedi.

Yr hyn y mae angen ei wella

## Gofal unigol

### Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

Gwnaeth y mwyafrif o'r cleifion a wnaeth gwblhau holiadur gadarnhau bod y deintydd yn gofyn iddynt am eu hanes meddygol cyn ymgymryd ag unrhyw driniaeth.

Yr hyn y mae angen ei wella

### Hawliau pobl

Canfuom fod y mynediad i'r practis yn dda. Roedd llethr yn arwain at y brif fynedfa ac roedd gan y practis ramp symudol a oedd yn cael ei roi ar waith i alluogi cleifion mewn cadeiriau olwyn i ddod i mewn. Roedd yr ystafell aros, y dderbynfa a'r tair ystafell driniaeth ar y llawr daear.

Roedd dau doiled cleifion a staff ar y llawr daear. Roedd un yn darparu cyfleusterau ar gyfer cleifion ag anawsterau symudedd ac roedd ganddynt fynediad da a rheiliau llaw sy'n darparu cymorth i gleifion sydd ei angen. Byddem yn cynghori'r practis i ystyried gosod larwm yn y toiled. Roedd trydydd toiled ar y llawr cyntaf.

Yr hyn y mae angen ei wella

## Gwrando a dysgu o adborth

Dywedodd pob un ond un o'r cleifion a wnaeth gwblhau holiadur y byddai'n gwybod sut i godi pryder neu gŵyn am y gwasanaethau yr oedd yn eu derbyn yn y practis deintyddol.

Roedd gan y practis bolisi cwynion ar gyfer triniaeth ddeintyddol y GIG a phreifat. Lle'n berthnasol, roedd y polisi wedi'i alinio â phroses gwyno'r GIG "Gweithio i Wella"[2] ac o ran triniaeth ddeintyddol breifat i Reoliadau Deintyddiaeth Breifat Cymru 2008[3]. Roedd y polisi yn cael ei arddangos yn ddwyieithog yn yr ystafell aros a'r dderbynfa. Gwnaethom nodi nad oedd y

[2] "Gweithio i Wella" yw'r broses integredig ar gyfer lleisio pryderon, ymchwilio iddynt, a dysgu ohonynt. Materion a nodir o ddigwyddiadau diogelwch cleifion, cwynion ac, o ran cyrff y GIG yng Nghymru, honiadau am wasanaethau a ddarperir gan gorff cyfrifol yng Nghymru yw pryderon.

[3] www.dentalprotection.org/uk/help-advice/regulations/wales/private-dentistry-(wales)-regulations-2008

polisi yn cynnwys y manylion cyswllt cywir ar gyfer y bwrdd iechyd a gwnaethom argymell bod hyn yn cael ei ddiwygio yn unol â hynny.

Roedd y practis yn cynnal ffolder sy'n cynnwys cofnodion o gwynion a gafodd eu derbyn a chanlyniadau. Roedd peth o'r wybodaeth yn anghyflawn. Rydym yn argymell bod y ffolder cwynion yn cynnwys gwybodaeth gynhwysfawr ynghylch y gŵyn, y camau a gymerwyd a'r canlyniad.

Dywedwyd wrthym nad oedd y practis yn cofnodi pryderon ar lafar/yn anffurfiol. Argymhellir bod holl adborth cleifion yn cael ei gofnodi i alluogi unrhyw themâu sy’n codi droeon i gael eu nodi. Byddem yn cynghori bod y practis yn cadw llyfr nodiadau yn y dderbynfa i gofnodi unrhyw adborth ar lafar.

Nid yw'r practis yn mynd ati mewn modd gweithredol i geisio adborth gan ei gleifion. Rydym yn argymell ei fod yn ystyried cyflwyno arolwg cleifion blynyddol a rhoi blwch awgrymiadau yn yr ardal aros.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Y practis i ddiwygio ei bolisi cwynion i gynnwys gwybodaeth gyswllt berthnasol a chyfredol.

Y practis i ddatblygu proses ar gyfer cofnodi pryderon cleifion.

Y practis i ystyried gweithredu proses ar gyfer ceisio a chasglu adborth cleifion mewn modd gweithredol.

## Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

*Gwnaethom ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau yn darparu gofal o ansawdd uchel, gofal diogel a gofal dibynadwy sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.*

Ar y cyfan, gwelsom dystiolaeth fod y practis yn darparu gofal deintyddol diogel ac effeithiol ar gyfer cleifion. Gwnaethom nodi bod y cyfleusterau clinigol yn llawn offer a'u bod i'w gweld yn lân ac yn daclus – er bod rhai arwyddion o ôl traul yr oedd angen mynd i'r afael â nhw.

Roedd trefniadau ar waith ar gyfer defnyddio offer pelydr-X yn ddiogel ac roedd tystiolaeth o waith cynnal a chadw parhaus a rheolaidd.

Mae angen i'r practis sicrhau bod cofnodion meddygol cleifion yn cael eu cwblhau ar gyfer pob ymweliad â chleifion a bod hanes meddygol yn cael ei ddiweddaru, ei lofnodi a'i gydlofnodi.

### Gofal diogel

#### Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Yn gyffredinol, gwelsom fod trefniadau ar waith i amddiffyn diogelwch a lles y staff sy'n gweithio yn y practis a'r bobl sy'n ymweld ag ef.

Roedd yn ymddangos bod yr adeilad yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda ac roedd yr ystafelloedd triniaeth yn lân gydag offerynnau a chyfarpar yn cael eu storio'n briodol. Gwnaethom sylwi ar dwll yn y plastr uwchben y sinc yn y toiled i lawr y grisiau a gwnaethom argymell bod y practis yn cywiro hyn. Ni chodwyd unrhyw bryderon gan gleifion a gwblhaodd yr holiadur, ynghylch glendid y practis a gwnaethom sylwi bod holl fannau'r practis yn lân ac yn daclus. Nodwyd fod soffa ffabrig yn un o'r ystafelloedd triniaeth a soffa ledr mewn un arall. Rydym yn cynghori bod y practis yn datblygu protocol dadheintio ar gyfer y dodrefn hyn.

Dywedwyd wrthym fod y deintyddion partner wedi ymgymryd â'r profion dyfeisiau cludadwy ar gyfer y practis. Yn ôl arweiniad yr Awdurdod Gweithredol

Iechyd a Diogelwch, mewn llawer o amgylcheddau risg isel, gall unigolyn cymwys ymgymryd â phrofion dyfeisiau cludadwy, ac, os oes ganddo ddigon o wybodaeth a hyfforddiant, gallai hwn fod yn aelod synhwyrol o staff sy'n ymgymryd ag archwiliadau gweledol. Ond, wrth ymgymryd ag archwiliad a phrawf ar y cyd, a lle mae cleifion a staff yn dod i gyswllt â'r cyfarpar trydanol, rhaid iddynt gael eu profi gan unigolyn cymwys. Byddem yn argymell bod y practis yn cysylltu ag unigolyn â chymwysterau addas i gynnal profion dyfeisiau cludadwy manwl i sicrhau'r defnydd diogel o offer trydanol bach yn y practis

Gwelsom fod diffoddwyr tân ar gael mewn lleoliadau amrywiol o amgylch yr adeilad a gwnaethom nodi eu bod wedi eu gwasanaethu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf i sicrhau bod y cyfarpar yn gweithio'n iawn. Roedd cyfarwyddiadau ar gyfer yr allanfa argyfwng yn weladwy.

Gwelsom fod contractau ar waith ar gyfer trosglwyddo a gwaredu gwastraff peryglus (clinigol), gwastraff nad yw'n beryglus (cartref) a gwastraff amalgam yn ddiogel.

O dan Reoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd 2002, mae'n rhaid i gyflogwyr naill ai atal neu leihau datguddiad staff i sylweddau sy'n niweidiol i'w hiechyd. Gwelsom fod gan y practis restr wirio 'Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd' a dalenni data diogelwch perthnasol ac roedd y rhain yn darparu gwybodaeth am sylweddau sy'n 'beryglus i'w cyflenwi' a chyfarwyddiadau ar gyfer defnydd diogel mewn perthynas â sylweddau eraill a ddefnyddir yn y practis. Gwnaethom nodi bod y Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd wedi cael eu diweddaru'n ddiweddar.

Roedd gan y practis lyfr Rheoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau neu Ddigwyddiadau Peryglus a oedd yn cael ei gwblhau pan oedd damwain yn digwydd.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Y practis i fynd i'r afael ag arwyddion o ôl traul yn y toiled i lawr y grisiau.

Rydym yn argymell bod y practis, yn unol ag arweiniad yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, yn cyflogi unigolyn cymwys i ymgymryd â phrawf dyfeisiau cludadwy manwl i sicrhau'r defnydd diogel o gyfarpar trydanol bach yn y practis.

## Atal a rheoli heintiau

Roedd gan y practis gyfleusterau penodol ar gyfer glanhau a sterileiddio (dadheintio) offer deintyddol, yn unol ag argymhellion Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05.[4] Roedd yr ystafell i'w gweld yn lân ac yn daclus a gwelsom dystiolaeth fod mesurau atal a rheoli heintiau ar waith. Roedd gwaith glanhau cyn-sterileiddio a gwaith sterileiddio yn cael ei wneud yn unol â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru a chanllawiau'r gwneuthurwyr. Gwelsom fod y llyfrau cofnodi ar gyfer gwirio'r cyfarpar sterileiddio yn cael eu cynnal a bod polisi rheoli heintiau ar waith.

Roedd gan y staff fynediad at gyfarpar diogelu personol pan oeddent yn gweithio yn y mannau dadheintio.

Gwnaethom nodi nad oedd gan y practis dystiolaeth o hyfforddiant rheoli heintiau cyfredol ar gyfer un nyrs ddeintyddol a gwnaethom argymell bod hyn yn cael ei gywiro.

Gwelsom dystiolaeth fod y practis wedi ymgymryd ag archwiliad rheoli heintiau gan ddefnyddio arweiniad HTM (Lloegr). Mae WHTM 01-05 yn berthnasol i bractisau deintyddol yng Nghymru ac yn cynghori bod practisau yn adolygu eu canlyniadau archwilio o leiaf bob blwyddyn, neu pan fo mater dadheintio yn codi, er mwyn sicrhau bod arfer da yn cael ei gynnal.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r practis sicrhau bod gan yr holl staff clinigol dystysgrifau cyfredol sy'n dangos eu bod wedi cael hyfforddiant rheoli heintiau priodol, yn unol â gofynion cyfredol datblygiad proffesiynol parhaus.

Yn unol â chanllawiau, dylai'r practis gynnal archwiliadau yn unol â WHTM 01-05, bob blwyddyn.

## Rheoli meddyginiaethau

[4] Mae'r ddogfen Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM 01-05) (Diwygiad 1) yn darparu canllawiau i weithwyr proffesiynol ar ddadheintio mewn practisau gofal sylfaenol a phractisau deintyddol cymunedol.

Roedd gan y practis weithdrefnau ar waith i ymdrin ag argyfyngau cleifion. Ac eithrio un nyrs ddeintyddol a dau dderbynnydd, roedd yr holl staff wedi derbyn hyfforddiant o fewn y 12 mis diwethaf, ar sut i ddelio ag argyfyngau meddygol a sut i berfformio adfywio cardio-pwlmonaidd. Roedd gan y practis ymgynghorydd cymorth cyntaf penodedig.

Roedd gan y staff gyffuriau ac offer dadebru brys priodol yn unol â chanllawiau Cyngor Dadebru'r DU.[5] Roedd y rhain yn cael eu storio'n ddiogel a gellid mynd atynt yn hawdd.

Gwnaethom nodi bod gan y practis system ar waith i wirio bod cyffuriau a chyfarpar brys o fewn eu dyddiad ac yn barod i'w defnyddio. Gwnaethom nodi bod padiau rhagnodi'n cael eu cadw'n ddiogel.

Yr hyn y mae angen ei wella

Pob aelod o staff i gael hyfforddiant priodol ar sut i ddelio ag argyfyngau meddygol a pherfformio adfywio cardio-pwlmonaidd.

### Diogelu plant ac oedolion mewn perygl

Gwelsom fod gan y practis bolisïau a gweithdrefnau ar waith i hyrwyddo a diogelu lles plant ac oedolion sy'n agored i niwed, gan gynnwys manylion cyswllt yr asiantaethau diogelu perthnasol. Nid oedd pob aelod o staff wedi cwblhau hyfforddiant mewn un neu'r ddwy agwedd ar hyfforddiant, er enghraifft, amddiffyn plant ac oedolion agored i niwed. Rydym yn argymell bod y practis yn sicrhau bod staff sydd â mynediad at gleifion, yn cwblhau hyfforddiant yn y ddau faes o amddiffyn plant ac oedolion.

Roedd trefniadau ar waith i staff leisio unrhyw bryderon, a dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo y gallent wneud hyn yn y practis. Roedd gan bob aelod o staff dystysgrifau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

[5] Sefydlwyd Cyngor Dadebru'r DU i hyrwyddo canllawiau dadebru gwyddonol o ansawdd uchel sy'n berthnasol i bawb, ac i gyfrannu at achub bywydau trwy addysg, hyfforddiant, gwaith ymchwil, a chydweithredu.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r practis sicrhau bod gan yr holl staff fynediad at hyfforddiant diogelu perthnasol ac yn ei gwblhau.

### Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol

Gwelsom fod yr ystafelloedd triniaeth i'w gweld yn lân ac yn cynnwys offer priodol ar gyfer diogelwch y cleifion a'r tîm deintyddol.

Roedd y cyfarpar radiolegol yn gweithio'n dda ac roedd y mannau a reolir wedi'u nodi. Gwelsom ddogfennaeth i ddangos bod y peiriannau cywasgydd a phelydr-X yn cael eu gwasanaethu'n gyson. Roedd y ffeil amddiffyn rhag ymbelydredd yn cael ei chynnal a'i chadw ac roedd yn cynnwys yr holl wybodaeth hanfodol.

Yn unol â gofynion Rheoliadau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol [6] a Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000[7] roedd yr holl staff clinigol wedi cwblhau'r hyfforddiant angenrheidiol.

Yr hyn y mae angen ei wella

## Gofal effeithiol

### Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Mae’r cleifion yn elwa ar bractis sy'n ceisio gwella'r gwasanaeth a ddarperir yn barhaus. Gwelsom dystiolaeth bod y practis wedi ymgymryd ag archwiliadau

[6] Cyngor Deintyddol Cyffredinol – http://www.gdc-uk.org/Pages/default.aspx

[7] http://www.legislation.gov.uk/uksi/2000/1059/pdfs/uksi_20001059_en.pdf

mewn perthynas â rheoli heintiau, diogelwch offer miniog a radiograffau. Rydym yn argymell bod y practis yn datblygu rhaglen strwythuredig o archwiliadau parhaus

Yr hyn y mae angen ei wella

Y practis i ddatblygu rhaglen strwythuredig o archwiliadau parhaus.

### Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi

Dywedwyd wrthym fod y deintyddion yn cyfarfod yn anffurfiol i drafod achosion sy'n berthnasol ar y pryd. Nid ydynt yn cwrdd at ddibenion adolygiadau cymheiriaid. Byddem yn argymell trefnu cyfarfodydd ffurfiol a rheolaidd rhwng y deintyddion at y diben hwn.

Efallai byddai'r practis hefyd yn dymuno ystyried gwneud cais am offeryn datblygu ymarfer Deoniaeth Cymru, sef y Matrics Aeddfedrwydd ar gyfer Deintyddiaeth[8]. Mae'r Offeryn Matrics Aeddfedrwydd yn offeryn datblygu ymarfer tîm deintyddol i ganiatáu i'r tîm i ganolbwyntio ar y ffordd y maent yn gweithio.

Yr hyn y mae angen ei wella

Y deintyddion i drefnu cyfarfodydd ffurfiol a rheolaidd at ddibenion adolygiad cymheiriaid.

Y practis i ystyried gwneud cais am offeryn datblygu ymarfer Matrics Aeddfedrwydd ar gyfer Deintyddiaeth y Ddeoniaeth.

### Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu

[8] https://dental.walesdeanery.org/improving-practice-quality/maturity-matrix-dentistry

Roedd gan y practis bolisïau a gweithdrefnau priodol ar waith, gan gynnwys polisi cyfrinachedd y practis, cod ymarfer diogelu data a pholisi rhyddid gwybodaeth.

Roedd gan y practis ffeiliau electronig a gwnaed copi wrth gefn ohonynt yn ddyddiol.

### Cadw cofnodion

Gwnaethom arolygu sampl o gofnodion cleifion. Canfuom fod rhai hepgoriadau mewn rhai achosion, sef:

- Ni chafodd hanesion meddygol eu diweddaru yn unol â chanllawiau[9], na'u llofnodi gan y claf neu eu cydlofnodi gan y deintydd.
- Nid yw lefelau archwiliadau periodontal sylfaenol[10] bob amser wedi eu cofnodi.

Yr hyn y mae angen ei wella

Yn unol â safonau proffesiynol ar gyfer cadw cofnodion, y practis i sicrhau bod cofnodion cleifion yn cael eu cwblhau ym mhob ymweliad claf i gofnodi:

- Lefelau archwiliadau periodontol sylfaenol ar gyfnodau proffesiynol a

[9]Safon 4.1 o Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol: https://www.gdc-uk.org/

[10] Mae asesiad gofalus o'r meinweoedd peridontol yn elfen hanfodol o reoli cleifion. Defnyddir yr archwiliad periodontol sylfaenol (BPE) fel dull sgrinio sylfaenol i wirio statws periodontol claf.

argymhellir

- Mae hanesion meddygol yn cael eu gwirio ar lafar ym mhob ymweliad ond yn cael eu llofnodi gan y claf a'u cydlofnodi gan y deintydd yn ystod cyfnodau a argymhellir

## Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

*Gwnaethom ystyried sut mae gwasanaethau'n cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn cefnogi darparu gofal diogel ac effeithiol. Gwnaethom hefyd ystyried sut mae gwasanaethau'n adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain ochr yn ochr â'r Safonau Iechyd a Gofal.*

Yn ystod yr arolygiad, canfuom fod cydberthynas dda rhwng yr holl staff.

Roedd dyletswyddau gweinyddol yn cael eu cyflawni'n rhan amser gan ddau aelod o staff a oedd wedi dechrau rhoi prosesau newydd ar waith.

Roedd ystod gynhwysfawr o bolisïau a gweithdrefnau perthnasol ar waith.

Mae angen i'r practis weithredu rhaglen o arfarniadau staff.

### Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Y prif ddeintydd sydd berchen ar Bractis Deintyddol Church Road. Roedd anghenion gweinyddol y practis yn cael eu rheoli gan ddau aelod o staff a oedd yn rhannu'r swyddogaeth gyda nyrs ddeintyddol a derbynnydd. Yn ystod yr arolygiad, gwelsom berthynas dda iawn rhwng holl staff y practis.

Roedd y practis wedi'i drefnu'n dda, a gwelwyd gwaith cadw cofnodion da yn y rhan fwyaf o feysydd. Gwelsom fod amrediad eang o bolisïau a gweithdrefnau ar waith i sicrhau diogelwch staff a chleifion. Dywedwyd wrthym fod y polisïau wedi'u hadolygu a'u diweddaru'n ddiweddar. Roedd y ffolder yn cynnwys dalen flaen gyda llofnodion rhai o staff y practis yn nodi bod y polisïau wedi cael eu darllen a'u deall. Byddem yn argymell bod yr holl staff yn darllen y polisïau wedi'u diweddaru ac yn llofnodi'r daflen flaen i gadarnhau hyn.

Roedd y practis wedi cynnal asesiad risg iechyd a diogelwch o'r gweithle yn 2016. Byddem yn argymell bod hyn yn cael ei adolygu a'i ddiweddaru.

Roedd pob aelod o'r staff clinigol wedi'i gofrestru gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol, ac yn meddu ar yswiriant indemniad priodol. Roedd yr holl ddeintyddion yn darparu rhai gwasanaethau deintyddol preifat a gwelsom fod eu tystysgrifau cofrestru'n cael eu harddangos yn glir yn ôl gofyniad Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008.

Yr hyn y mae angen ei wella

Y practis i gynnal asesiadau risg priodol mewn perthynas ag iechyd a diogelwch yn y gweithle.

Argymhellir bod cofnodion yn cael eu cadw i ddangos bod yr holl staff wedi darllen a deall polisïau

## Staff ac adnoddau

### Gweithlu

Dywedodd y staff wrthym eu bod yn mwynhau gweithio yn y practis a gwelsom berthynas gref rhwng holl staff y practis. Gwnaethom nodi bod gan bob aelod o staff gontractau cyflogaeth a gwelsom dystiolaeth ar ffeiliau staff fod gan y practis raglen ymsefydlu ar waith. Cynhaliwyd arfarniadau staff ym mis Tachwedd 2017 ond ni chafodd y rhain eu cofnodi. Dywedwyd wrthym fod pro formas wedi'u datblygu a bod rhaglen o arfarniadau yn cael ei chynllunio ar gyfer 2018. Rydym yn argymell bod hyn wedi'i sefydlu ar gyfer staff clinigol a rhai nad ydynt yn glinigol.

Gwelsom dystysgrifau a oedd yn dangos bod y mwyafrif o staff wedi mynychu hyfforddiant ar ystod o bynciau sy'n berthnasol i'w swyddogaethau a'u bod yn bodloni gofynion Datblygiad Proffesiynol Parhaus.

Mae'r practis yn cynnal cyfarfodydd staff ond nid ydynt yn digwydd yn rheolaidd. Gwelsom dystiolaeth fod cofnodion yn cael eu drafftio ond nid oedd hyn yn digwydd yn gyson. Byddem yn argymell bod y practis yn cyflwyno cyfarfodydd staff rheolaidd, a bod cofnodion yn cael eu llunio a’u dosbarthu i'r holl staff.

Mae'r Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat yn ei gwneud yn ofynnol i bob deintydd sy'n darparu gwasanaethau deintyddol preifat yng Nghymru feddu ar dystysgrif gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a gyflwynwyd yn ystod y tair blynedd ddiwethaf. Gwelsom dystiolaeth fod gwiriadau clirio gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd wedi'u cynnal ar bob aelod o staff clinigol a’r rhai hynny nad ydynt yn glinigol.

Mae'n ofynnol i staff clinigol gael eu himiwneiddio yn erbyn Hepatitis B i amddiffyn cleifion a'u hunain yn erbyn heintiau. Darparodd y practis brawf o imiwnedd ar gyfer pob aelod o staff clinigol.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Y practis i gyflwyno rhaglen o arfarniadau blynyddol ar gyfer staff clinigol a rhai nad ydynt yn glinigol

Y practis i gyflwyno rhaglen o gyfarfodydd staff rheolaidd sy'n cael eu cofnodi a'r cofnodion hynny wedyn yn cael eu hanfon i'r holl staff.

# 4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, mae’r rhain wedi'u manylu yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle bônt yn berthnasol):

- Atodiad A: Mae hwn yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a uwchgyfeiriwyd ac a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Mae hwn yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn nodi bod angen i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn ein hysbysu o'r camau y mae’n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn
- Atodiad C: Mae hwn yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle'r ydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Dylai'r cynlluniau gwella:

- Ddatgan yn eglur pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw digonol.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth:

- Sicrhau nad yw canfyddiadau’n systemig ar draws mannau eraill o fewn y sefydliad ehangach
- Rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi derbyn sylw.

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

# 5. Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol

Mae arolygiadau o bractisau deintyddol fel arfer yn rhai lle rhoddir rhybudd. Mae practisau deintyddol yn derbyn o leiaf 12 wythnos o rybudd ymlaen llaw ynglŷn ag arolygiad. Mae hyn er mwyn rhoi trefniadau ar waith i sicrhau bod y practis yn rhedeg yn unol â'r arfer, a bod yr arolygiad yn amharu ar gleifion cyn lleied ag y bo modd.

Mae adborth yn cael ei ddarparu i gynrychiolwyr y practis ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefelau gweithredol a strategol.

Rydym yn gwirio sut mae practisau deintyddol yn bodloni Safonau Iechyd a Gofal 2015 <http://gov.wales/docs/dhss/publications/150402standardsen.pdf>. Bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis sydd wedi'i gofrestru gydag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat hefyd yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 <http://www.legislation.gov.uk/wsi/2008/1976/contents/made> a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011 <http://www.legislation.gov.uk/wsi/2011/2686/contents/made>. Lle bo hynny'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999 <http://www.legislation.gov.uk/uksi/1999/3232/contents/made>, Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000 <http://www.legislation.gov.uk/uksi/2000/1059/contents/made>, ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill, megis 'Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol <https://www.gdc-uk.org/professionals/standards>.

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn practisau deintyddol.

Ceir gwybodaeth bellach am sut mae AGIC yn arolygu practisau deintyddol a'r GIG ar ein gwefan.

## **Atodiad A** – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod yr arolygiad. Oherwydd yr effaith (bosibl) ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith yn ystod yr arolygiad.

| Pryderon uniongyrchol a nodwyd | Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion | Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder | Sut cafodd y pryder ei ddatrys |
|---|---|---|---|
| Ni nodwyd unrhyw bryderon dybryd yn ystod yr arolygiad hwn | | | |

# Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith

## Gwasanaeth: Practis Deintyddol Church Road

## Dyddiad yr arolygiad: 5 Chwefror 2018

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon dybryd ynghylch diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu brys y mae'n eu cymryd.

| Yr hyn y mae angen ei wella ar unwaith | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| Nid oedd unrhyw faterion sicrwydd uniongyrchol a gafodd eu nodi yn ystod yr arolygiad | | | | |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

## Cynrychiolydd y gwasanaeth:

## Enw (llythrennau bras):

## Swydd:

## Dyddiad:

# Atodiad C – Cynllun gwella

## Gwasanaeth: Practis Deintyddol Church Road

## Dyddiad yr arolygiad: 5 Chwefror 2018

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| **Ansawdd profiad y claf** | | | | |
| Staff clinigol i sicrhau bod drysau'r ystafelloedd triniaeth ar gau tra bod cleifion yn derbyn triniaeth. | 4.1 Gofal ag urddas | Y practis i sicrhau bod drws pob ystafell driniaeth ar gau bob amser | Pob gweithiwr proffesiynol gofal deintyddol | Cwblhawyd |
| Mae angen i'r practis adolygu a diweddaru ei wefan i gynnwys gwybodaeth am ddarparu triniaeth ddeintyddol y GIG a'r prisiau perthnasol a pholisi cwynion y practis. | 3.2 Cyfathrebu'n effeithiol | Gwefan i gael ei diweddaru | Rhys Welsh - Web & Graphic Design | Gorffennaf 2018 |
| Y practis i ddiwygio ei bolisi cwynion i gynnwys gwybodaeth gyswllt berthnasol a chyfoes. | 6.3 Gwrando a dysgu o adborth | Cyfeiriad cyswllt wedi'i ddiweddaru | Amanda Price | Cwblhawyd |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| Y practis i ddatblygu proses ar gyfer cofnodi pryderon cleifion. | | Yn aml, caiff pryderon cleifion eu datrys gyda chanllawiau a chefnogaeth tîm y dderbynfa. Fodd bynnag, ers arolygu rydym wedi creu ffurflen gofnodi i gasglu a chofnodi unrhyw bryderon a chamau a gymerwyd.<br><br>Caiff pryderon anffurfiol eu hadolygu bob mis a'u trafod yng nghyfarfodydd y practis gyda'r bwriad o weithredu newid | Amanda Price | Cwblhawyd |
| Y practis i ystyried gweithredu proses ar gyfer ceisio a chasglu adborth cleifion yn weithredol. | | Y practis i ddarparu holiadur cleifion/ffurflen arolygu/pro forma i'w defnyddio i gasglu adborth cleifion a'i ddefnyddio fel offeryn datblygu ymarfer.<br><br>Holiadur/Arolwg i gael ei adolygu bob mis a'i drafod mewn cyfarfodydd practis. | Amanda Price | Yn syth ar ôl yr arolygiad |
| **Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol** | | | | |
| Y practis i fynd i'r afael ag arwyddion o ôl traul yn y toiled i lawr grisiau. | 2.1 Rheoli risg a hyrwyddo iechyd a diogelwch | Disgwyl dyfynbris gan adeiladwr | Mel Davies | Yn syth ar ôl yr arolygiad |
| Rydym yn argymell bod y practis, yn unol ag arweiniad yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a | | Mae offer trydanol yn cael eu cynnal a'u cadw'n rheolaidd fodd bynnag, mae'r | Coad Electrical Ltd | 21/05/2018 |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| Diogelwch, yn cyflogi person cymwys i ymgymryd â phrawf PAT manwl i sicrhau'r defnydd diogel o gyfarpar trydanol bach yn y practis. | | practis wedi trefnu fod corff proffesiynol cymwys yn ymgymryd â'r weithdrefn hon | | |
| Rhaid i'r practis sicrhau bod gan yr holl staff clinigol dystysgrifau cyfredol sy'n dangos eu bod wedi cael hyfforddiant rheoli heintiau priodol, yn unol â gofynion cyfredol datblygiad proffesiynol parhaus. | 2.4 Atal a rheoli heintiau a dadheintio | Mae pob gweithiwr proffesiynol gofal deintyddol yn derbyn hyfforddiant perthnasol yn unol â gofynion datblygiad proffesiynol parhaus, fodd bynnag, bydd y practis yn sicrhau ein bod yn cadw copïau o dystysgrifau perthnasol ar ffeiliau personol gweithwyr proffesiynol gofal deintyddol. | Amanda Price | Cwblhawyd |
| Yn unol â chanllawiau, dylai'r practis gynnal archwiliadau yn unol â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05, bob blwyddyn. | | Mae'r practis yn edrych i gofrestru gyda'r Bwrdd Addysg Feddygol a Deintyddol i Raddedigion i gynnal archwiliadau blynyddol yn unol â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 | Holl weithwyr proffesiynol gofal deintyddol | Gorffennaf 2018 |
| Pob aelod o staff i dderbyn hyfforddiant priodol ar sut i ddelio ag argyfyngau meddygol a pherfformio adfywio cardio-pwlmonaidd. | 2.6 Rheoli meddyginiaethau | O dan y contract newydd mae'n awr yn orfodol fod pob aelod o staff yn ymgymryd ag argyfyngau meddygol ac yn perfformio adfywio cardio- | Lubas Medical | 21/05/2018 |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | | pwlmonaidd bob blwyddyn. | | |
| Rhaid i'r practis sicrhau bod gan yr holl staff fynediad at hyfforddiant diogelu perthnasol ac yn ei gwblhau. | 2.7 Diogelu plant a diogelu oedolion mewn perygl | Bydd y practis yn sicrhau bod yr holl weithwyr yn cwblhau hyfforddiant diogelu | Purple Media Solutions | Yn syth ar ôl yr arolygiad |
| Y practis i ddatblygu rhaglen strwythuredig o archwiliadau parhaus. | 3.1 Gofal diogel a chlinigol effeithiol | Mae rhaglen ar gyfer archwiliadau parhaus bellach ar waith | Holl weithwyr proffesiynol gofal deintyddol | Cwblhawyd |
| Y deintyddion i drefnu cyfarfodydd ffurfiol a rheolaidd at ddibenion adolygu gan gymheiriaid. | 3.3 Gwella Ansawdd, Ymchwil ac Arloesedd | Cyfarfodydd rheolaidd i gael eu cynnal yn y practis, fodd bynnag, bydd y practis yn cofnodi cofnodion cyfarfodydd yn awr a'u dosbarthu i holl aelodau'r staff. | Pob un o'r pedwar partner | Cwblhawyd |
| Y practis i ystyried gwneud cais am offeryn datblygu ymarfer Deoniaeth Cymru, sef y Matrics Aeddfedrwydd ar gyfer Deintyddiaeth. | | Yn aros am fwy o wybodaeth | Amanda Price | |
| Yn unol â safonau proffesiynol ar gyfer cadw cofnodion, y practis i sicrhau bod cofnodion cleifion yn cael eu cwblhau yn ystod pob ymweliad claf er mwyn cofnodi:<br><br>Lefelau archwiliadau periodontol sylfaenol (BPE) ar gyfnodau proffesiynol a | 3.5 Cadw cofnodion | Mae ein meddalwedd deintyddol wedi cael ei diweddaru'n ddiweddar. Bydd pob gweithiwr proffesiynol gofal deintyddol yn sicrhau ei fod yn cofnodi lefelau archwiliadau periodontol sylfaenol (BPE) a ffurflen Hanes | Pob gweithiwr proffesiynol gofal deintyddol | Cwblhawyd |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| argymhellir<br><br>Mae hanes meddygol yn cael ei wirio ar lafar yn ystod pob ymweliad ond yn cael ei lofnodi gan y claf a'i gyd-lofnodi gan y deintydd yn ystod cyfnodau a argymhellir | | Meddygol wedi'i llofnodi | | |
| **Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth** | | | | |
| Y practis i wneud asesiadau risg priodol mewn perthynas ag iechyd a diogelwch yn y gweithle. | Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd | Mae'r asesiadau risg cyfredol yn cael eu hadolygu ac mae asesiadau risg priodol eraill bellach wedi cael eu gweithredu | Mel Davies, Matthew Clark, Michael Hedges & Jonathan Collis | Yn syth ar ôl yr arolygiad |
| Argymhellir bod cofnodion yn cael eu cadw i ddangos bod yr holl staff wedi darllen a deall polisïau | | Ar hyn o bryd yn ei le, fodd bynnag, bydd y practis yn sicrhau bod holl aelodau'r staff yn darllen ac yn llofnodi'r holl bolisïau | Amanda Price | Yn syth ar ôl yr arolygiad |
| Y practis i gyflwyno rhaglen o arfarniadau blynyddol ar gyfer staff clinigol a rhai nad ydynt yn glinigol | 7.1 Gweithlu | Y practis yn ddiweddar wedi gweithredu'r pro forma ac arfarniadau i gael eu cynnal bob blwyddyn | Mel Davies, Matthew Clark, Michael Hedges & Jonathan Collis | Arfarniadau i'w cynnal ym mis Hydref 2018 |
| Y practis i gyflwyno rhaglen o gyfarfodydd staff rheolaidd sy'n cael eu cofnodi a bod y cofnodion | | Mae cyfarfodydd rheolaidd ar waith ar hyn o bryd, fodd bynnag, bydd y practis | Pob un o'r pedwar partner | Yn syth ar ôl yr arolygiad |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| hynny yn cael eu dosbarthu i'r holl staff. | | yn sicrhau bod pob cyfarfod yn cael ei gofnodi a bod y cofnodion yn cael eu dosbarthu i'r holl staff | | |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

## Cynrychiolydd y gwasanaeth

**Enw (llythrennau bras): Amanda Price**

**Swydd: Adnoddau Dynol/Gweinyddwr**

**Dyddiad: 18/04/2018**